SWYDDO
GOL

Nodiadau cyfarfod Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig: 13eg Hydref 2021

CYFLWYNIADAU

Diweddariadau Achos Blaenorol:

- ACR5 – Holodd y Panel pam mewn achos o Osgoi Talu am Docyn, derbyniodd yr OIC fod troseddwr yn defnyddio tocyn Freedom perthynas heb, mae'n ymddangos, unrhyw ymchwiliad pellach (gallai'r cerdyn fod wedi'i ddwyn).

  Ateb: Credai OIC yn llwyr gyfrif yr unigolyn, a oedd yn gredadwy. Mae llawer o weithiau pan naill ai nad yw hyn yn amlwg yn wir a gellir cynnal amrywiaeth o ymholiadau lle credir bod y tocyn wedi'i ddwyn neu y gallai'r perchennog gwreiddiol fod yn ddioddefwr trosedd. Fel arfer, caiff tocynnau disgownt arbennig eu hatafaelu a'u trosglwyddo i staff lle bo hynny'n ymarferol ond maent wedi'u hatafaelu a'u dinistrio yn y gorffennol; dylid dychwelyd tocynnau i TfL lle bo hynny'n bosibl.

DIWEDDARIADAU:

Cynllun Peilot Penderfyniadau Cymunedol Symlach BTP

Dechreuodd Swyddogion BTP ym Manceinion gynllun peilot ym mis Mehefin lle nad oedd ond yn ofynnol iddynt gwblhau'r ddogfen CR ei hun wrth ddelio â throseddau syml, lefel isel. Roedd hyn yn dileu'r gofyniad i lenwi ffurflenni ffeiliau achos, ond ar y gofyniad bod y ddogfen CR ei hun yn cael ei llenwi'n ddigonol. Mae'r Cynllun Peilot yn mynd rhagddo, ac er na fu nifer fawr o achosion perthnasol hyd yma, mae wedi'i ymestyn i ardal Leeds yn ddiweddar, felly bydd y nifer sy'n manteisio, y cynnydd a'r llwyddiant i gyd yn cael eu monitro'n agos.

Yn y Panel Craffu ym mis Hydref, cynhwyswyd pedwar achos enghreifftiol ymhlith y garfan i'w hadolygu. Darperir diweddariad pellach ar gynnydd y cynllun peilot ym Mhanel Craffu Ionawr 2022 ynghyd ag enghreifftiau ychwanegol o achosion perthnasol.

Diweddariad Ôl-groniad Llys

DS.Mae data tueddiadau ar gyfer llysoedd Llundain yn unig.

Llys Ynadon:

- Mae tuedd tuag i lawr mewn achosion sy'n weddill mewn llys agored – er nad yw'r rhain ar lefelau cyn y pandemig mae gostyngiad amlwg yn y nifer o achosion o uchafbwynt haf 2020
- Er gwaethaf hyn, mae'r amser cyfartalog o drosedd i gwblhau yn y llys yn llawer mwy o hyd nag ar ddechrau'r Pandemig yn chwarter cyntaf 2020

Llys y Goron:

- Bu cynnydd sydyn hyd at ddiwedd 2020, ac yna cynnydd araf drwy gydol 2021 hyd yma ac bellach mae

arwyddion bod lefelau'r achosion sy'n weddill yn sefydlogi.

- Er bod yr amser cyfartalog o draddodi i gwblhau hefyd yn llawer mwy o hyd nag ar ddechrau'r Pandemig (ac amseroedd aros yw'r hiraf yn y wlad), mae'r bwlch hwn yn cau.

Deddfwriaeth Covid-19

- Yn ein panel diwethaf, roedd y llywodraeth wedi rhyddhau mapiau ffyrdd unigol allan o'r cyfnod clo ar gyfer pob gwlad ac roeddem wedi symud i Gam 2.Ers mis Mehefin mae'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau wedi'u codi gan gynnwys y rhai mwyaf perthnasol i'n panel - sef gwisgo masgiau wyneb ar gludiant cyhoeddus yn Lloegr.Mae'r unig gyfyngiadau sy'n parhau yn ymwneud â hunan-ynysu, teithio rhyngwladol, pwerau awdurdodau lleol, a gorchuddion wyneb yng Nghymru a'r Alban.
- Mae angen pasiau/ardystio Covid-19 bellach yng Nghymru a'r Alban wrth fynd i mewn i 'safleoedd hwyr y nos' fel clybiau nos neu ddigwyddiadau penodol gyda mwy na 500 o bobl. Mae'r rhwymedigaeth yn gyfan gwbl ar y person sy'n gyfrifol am y safleoedd perthnasol, ond mae'n drosedd yng Nghymru i feddu ar dystiolaeth ffug neu gamarweiniol o statws brechu neu brofi.

Bil Plismona, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd

- Ers ein cyfarfod diwethaf mae wedi symud ymhellach drwy'r broses ddeddfwriaethol ac ar hyn o bryd mae'n aros am gyfnod y pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Deddf Cam-drin Domestig 2001

- Deddfwriaeth sy'n creu rheolau a phwerau amrywiol i gynnig amddiffyniad rhag Cam-drin Domestig (DA). Daeth yn Ddeddf ym mis Ebrill ac wedi hynny mae rhai darpariaethau wedi dechrau (neu maent i fod i ddechrau ar 1af Tachwedd); mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno diffiniad statudol newydd ar gyfer DA a'r hyn y mae'n ei olygu i gael ei gysylltu'n bersonol (a.1 & a.2), rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol (Rhan 4 o'r Ddeddf, ac a.78/a.79), rôl, dyletswyddau a swyddogaethau comisiynydd DA (Rhan 2 o'r Ddeddf), trosedd newydd o fygwth datgelu ffotograffau neu ffilm rywiol breifat gyda'r bwriad o achosi trallod (a.69), diddymu'r amddiffyniad o gydsyniad i niwed difrifol er boddhad rhywiol (a.71), a chyflwyno mwy o droseddau all-diriogaethol (a.72, At.3).

TROSOLWG O'R ACHOSION A YSTYRIWYD GAN Y PANEL

Roedd yr achosion a drafodwyd yn y panel yn cynnwys y troseddau canlynol; **Ymosodiad Cyffredin (2), OPD (1), Difrod Troseddol (1), Meddu ar ddosbarth B - canabis (4), Rhwystro'r Heddlu ac Osgoi Talu am Docyn (1), Tresmasu (5), D&D (1), Meddu ar ddosbarth A – cocên ac Ymosodiad Cyffredin (1)**

Of the 16 cases reviewed, the panel classified the disposals as follows:

OOCDs:

Priodol ac yn gyson â chanllawiau / polisi	5
Priodol ond gydag arsylwadau	8
Amhriodol ac anghyson â chanllawiau / polisi	3
Panel yn methu â chytuno ar briodoldeb y penderfyniad	0
Dim digon o wybodaeth	0

FPNs: Dim i gynnwys y mis hwn

Camau Gweithredu:

- Bydd pob un o'r achosion unigol a drafodwyd gan y panel yn cael eu bwydo'n ôl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda chanllawiau priodol i'r ddau swyddog yn yr achos a'u goruchwylwyr, o ran y gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau.
- Ymholiadau achos penodol i'w cynnal i ddiweddaru'r panel yn y cyfarfod nesaf:
  - Dim byd ar unrhyw un achos, ond ar gyfer y 4 achos Treial/Peilot CR, camau gweithredu sy'n ymwneud â chofnodi cywir ar y ffurflenni CR a chyfathrebu'r fframwaith cynyddol ar gyfer achosion Cyffuriau/Drugslink
- Darparu data wedi'u diweddaru ar gyfer y panel ar ôl-groniadau llys ym mis Ionawr 2022.
- Darparu data ar gyfer y panel ar gynnydd cynllun peilot CR Symlach ym mis Ionawr 2022.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10:00 Dydd Mercher 19eg Ionawr 2022, Ar-lein drwy Microsoft Teams (wyneb yn wyneb o bosibl hefyd).